**Datganiad Penderfyniad Eithriadol**

**Cymorth Staffio i'r Aelodau (gan gynnwys Arweinwyr Pleidiau Gwleidyddol)**

**Datganiad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd o dan adran 14(4) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010**

Penderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Ar 21 Ionawr 2026, gwnaeth Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ("y Bwrdd") benderfyniad mewn perthynas ag ad-dalu costau yr eir iddynt gan Aelodau wrth gyflogi staff o dan adran 20(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Penderfyniad y Bwrdd yw ymestyn y dyddiad cau i Aelodau (h.y. yr Aelodau presennol a allai ddychwelyd yn y Seithfed Senedd) weithredu'r fframwaith cyflogau a graddfeydd staff cymorth newydd a fydd ar waith yn y Seithfed Senedd. I'r Aelodau hyn, mae'r dyddiad cau wedi'i ymestyn o 7 Mai 2026 i 30 Mehefin 2026.

Rhesymau'r Bwrdd dros wneud Penderfyniad Eithriadol

O dan amgylchiadau arferol, pan fydd y Bwrdd wedi gwneud penderfyniad sy'n cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud ag ad-dalu costau yr eir iddynt gan yr Aelodau wrth gyflogi staff, ni all y Bwrdd addasu'r ddarpariaeth honno wedyn mewn perthynas ag unrhyw gyfnod cyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r ddarpariaeth honno'n cael ei wneud yn weithredol mewn cysylltiad â hi am y tro cyntaf (gweler adran 14(2) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ("Mesur 2010").

Fodd bynnag, yn unol ag adran 14(3) o Fesur 2010, mae'r Bwrdd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol i'r cyfyngiadau a osodir gan adran 14(2) beidio â bod yn gymwys.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod angen penderfyniad eithriadol am y rhesymau a ganlyn:

- Ar 10 Gorffennaf 2025, penderfynodd y Bwrdd gyflwyno fframwaith cyflogau a graddfeydd cyflog newydd ar gyfer staff a gyflogir gan Aelodau yn y Seithfed Senedd, gyda dyddiad cau o ddiwedd y Chweched Senedd ar gyfer gweithredu'r fframwaith.

- Bydd y fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau wneud penderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â chyflogi eu staff, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch nodi rolau swydd, graddfeydd cyflog a disgrifiadau swyddi.

- Nododd sylwadau dilynol gan Aelodau y byddai'r dyddiad cau yn heriol ac y byddai'n effeithio ar gwblhau'r gwaith yn llwyddiannus. Yn dilyn ymgynghoriad ym rhwng Rhagfyr 2025 a mis Ionawr 2026 ynghylch effaith y dyddiad cau ar yr Aelodau presennol a allai ddychwelyd yn y Seithfed Senedd, cytunodd y Bwrdd i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer gweithredu i'r Aelodau hyn i 30 Mehefin 2026, er mwyn sicrhau proses bontio ddidrafferth i'r fframwaith newydd.

- Bydd ymestyn y dyddiad cau ar gyfer gweithredu i Aelodau sy'n dychwelyd yn hwyluso'r amcan hanfodol o bontio'n ddidrafferth i'r fframwaith newydd ac yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r Aelodau a'u staff cymorth.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod yr ystyriaethau hyn yn esgor ar amgylchiadau eithriadol sy'n ei gwneud yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud y penderfyniad hwn.